CRICED CYMRU
CRICKET WALES

# PRIF HYFFORDDWR ANABLEDD

Mae'r Prif Hyfforddwr Anabledd yn gyfrifol am ddatblygu sgiliau technegol a thactegol y sgwad chwarae, gan gynnwys y tîm cyntaf a'r ail dîm. Mae'r Prif Hyfforddwr yn chwarae rôl hanfodol yn sicrhau bod chwaraewyr yn cael eu herio a'u cefnogi, a hynny o fewn amgylchedd positif a phleserus, ond heriol ar yr un pryd.

**PRIF DDYLETSWYDDAU A DISGRIFIAD O'R SWYDD (GYDA CHYMORTH PENNAETH Y LLWYBR TALENT):**

- Cynllunio a darparu sesiynau safonol fel rhan o raglen hyfforddiant y gaeaf (16 wythnos rhwng Rhagfyr - Ebrill ar Sadyrnau) ar gyfer y tîm cyntaf a'r ail dîm. Lleoliadau yng Nghaerdydd neu Ddwyrain Cymru yn bennaf ond bydd gofyn teithio ledled Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru ar adegau
- Bod yn brif ddewiswr sgwadiau a thimau ar gyfer gemau'r haf (tua 16-20 o gemau), ymgysylltu â'r capten, unrhyw hyfforddwyr cynorthwyol a Phennaeth y Llwybr Talent.
- Arwain a rheoli'r tîm ar ddiwrnod gêm o bersbectif hyfforddi, gweinyddu, a chysylltiadau'r clwb/gwrthwynebwyr
- Darparu adborth rheolaidd a pharhaus i chwaraewyr gan sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd technegol a thactegol ar draws y rhaglen
- Mynychu unrhyw DPP neu hyfforddiant perthnasol yn unol â chyfarwyddyd Criced Cymru
- Bod yn bresennol yng Nghynhadledd Anabledd flynyddol yr ECB
- Bod yn eiriolwr cryf dros griced anabledd a hyrwyddo ei le o fewn y llwybr talent
- Cysylltu â chlybiau sy'n rhan o raglen Hyrwyddo Criced Anabledd yr ECB ac unrhyw randdeiliaid eraill perthnasol (h.y. staff datblygu Criced Cymru) i sicrhau cyflenwad rheolaidd o gricedwyr ar gyfer yr ail dîm Dynion
- Mynd gyda'r tîm i unrhyw wersylloedd cyn dechrau'r tymor, yn y DU a thu hwnt
- Darparu peth cymorth, ochr yn ochr â Phennaeth y Llwybr Talent, i chwaraewyr y tu mewn a'r tu allan i'r amgylchedd criced
- Unrhyw ddyletswyddau eraill rhesymol a pherthnasol yn ôl disgresiwn Pennaeth y Llwybr Talent.

**Dyddiad Cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Sul 8 Medi 2025**

**TÂL:**
£14.57 yr awr (L2/Hyfforddwr Craidd) + 25c costau teithio
£16.81 yr awr (L3/Hyfforddwr Uwch) + 25c costau teithio
£120 y dydd ar gyfer hyfforddiant diwrnod gêm + 25c costau teithio

**HYD Y CYFNOD**
Mae'r rôl am gyfnod o 12 mis i ddechrau, gyda'r posibilrwydd o estyniad.

**CYMWYSTERAU A GWIRIADAU GOFYNNOL:**

- Hyfforddwr criced cymwysedig Lefel 2 (Craidd) man lleiaf
- Tystysgrif cliriad DBS yr ECB (a adnewyddir yn flynyddol)
- Tystysgrif Cymorth Cyntaf ddilys (a gwblheir bob tair blynedd)
- Tystysgrif ddilys modiwl e-ddysgu'r ECB ar Ddiogelu (a gwblheir bob tair blynedd)
- Rhaglen Sefydlu wyneb yn wyneb y Llwybr Talent ar Ddiogelu (a gwblheir bob tair blynedd)
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl neu barodrwydd i ymgymryd â'r hyfforddiant.

**Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant Oedolion Sy'n Wynebu Risg a Chynhwysiant Anabledd yn unol â chyfarwyddyd Criced Cymru.*

**Y BUDD A GEWCH CHI OHONO:**
Gall gweithio o fewn Anabledd Cymru fod yn un o'r profiadau hyfforddi mwyaf boddhaol a gewch chi erioed - mae ein chwaraewyr yn hynod o frwdfrydig ac yn awchu i ddysgu a datblygu. Byddwch yn chwarae rôl allweddol yn helpu i wella safon y chwarae yn gyffredinol o safbwynt technegol, gan ddatblygu eich hyfforddiant a'ch profiad eich hun trwy gydol y broses, a bod yn llysgennad / patrwm ymddwyn ar gyfer criced anabledd ledled y wlad.

**SUT I WNEUD CAIS:**
Anfonwch ffurflen gais wedi'i chwblhau at Sandie Keane yn sandie.keane@cricketwales.org.uk erbyn dydd Sul 8 Medi.

I gael sgwrs anffurfiol am y rôl dylech gysylltu â Phennaeth y Llwybr Talent, Matt Thompson ar matt.thompson@cricketwales.org.uk

**YMDDYGIAD PROFFESIYNOL**
Disgwylir i hyfforddwyr Criced Cymru gadw at god ymddygiad hyfforddwyr Criced Cymru https://cricketwales.org.uk/codes-of-conduct, yn ogystal â'r disgwyliadau a osodir yn llawlyfr staff Criced Cymru a'r polisi cyfryngau cymdeithasol (a ddarperir ar adeg sefydlu).

**RECRIWTIO MWY DIOGEL**

I gael manylion am ein hymrwymiad i Recriwtio Mwy Diogel gweler yma

**DIOGELU**

Mae Criced Cymru yn credu bod Diogelu yn elfen hanfodol sy'n ganolog i bopeth a wnawn. Mae gan bob plentyn, person ifanc ac oedolyn yr hawl i deimlo'n ddiogel ac yn rhan o bopeth a wnânt, ac mae hynny'n golygu sicrhau bod gennym y bobl iawn yn gweithio o fewn y sefydliad, drwy ddilyn proses recriwtio diogel gadarn. Mae Criced Cymru yn gwneud ei orau glas i wneud criced yng Nghymru yn gêm ddiogel a phleserus i 'bawb' ei mwynhau ar bob lefel.

Mae Criced Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyfartal i bawb. Er ein bod yn penodi ar sail teilyngdod bob tro, rydym yn annog ceisiadau yn arbennig oddi wrth grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym myd criced – yn enwedig merched, pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol, neu unigolion gydag anableddau.

***Rhaid ichi fod yn byw, ac yn meddu ar yr hawl i weithio yn y DU i wneud cais am y swydd hon.***